OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 3174 (Cy.276) (C.141)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) 2009

Gwnaed - - - - 2 Rhagfyr 2009

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 48(2) a 49(2) o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) 2009.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002(**2**);

ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

Diwrnodau Penodedig

2.—(1) Daw darpariaethau canlynol y Mesur i rym ar 7 Rhagfyr 2009 —

(a) adran 1 (dehongli);

(b) adran 4 (llunio cwricwla lleol ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) at y diben o wneud y gwaith paratoi angenrheidiol i lunio cwricwlwm lleol yn unol â darpariaethau adran 4 pan ddaw i rym yn llawn ac at ddibenion gwneud rheoliadau o dan adran 116A(5) o Ddeddf 2002 a rhoi cyfarwyddiadau o dan adran 116A(6) o Ddeddf 2002;

(c) adran 7 (dewisiadau disgyblion o gyrsiau cwricwlwm lleol) at y diben o wneud rheoliadau o dan adran 116D(2) o Ddeddf 2002;

(ch) adran 9 (penderfyniad pennaeth ysgol ynghylch hawlogaeth) at y diben o wneud rheoliadau o dan adran 116F(3) o Ddeddf 2002;

(d) adran 11 (penderfyniad pennaeth ysgol i ddileu hawlogaeth) at y diben o wneud rheoliadau o dan adran 116H(3) o Ddeddf 2002;

(dd) adran 12 (cynllunio'r cwricwlwm lleol);

(**1**) 2009 mccc 1.
(**2**) 2002 p.32.

(e) adran 13 (cyflawni hawolgaethau'r cwricwlwm lleol: cydweithio);

(f) adran 14 (cydweithio: canllawiau a chyfarwyddiadau);

(ff) adran 18 (cwricwlwm lleol: cyfarwyddiadau);

(g) adran 20 (rheoliadau a gorchmynion: y weithdrefn);

(ng) adran 40 (gwasanaethau a ddarperir gan ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach);

(h) adran 41 (dyletswyddau cyrff llywodraethu);

(i) adran 42 (diwygiadau i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000);

(j) adran 43 (y ddogfen llwybr dysgu);

(l) adran 44 (llwybrau dysgu: dehongli);

(ll) adran 45 (darparu gwybodaeth am y cwricwlwm);

(m) adran 47 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau'r Atodlen a bennir ym mharagraff (n);

(n) paragraffau 11 i 22 o'r Atodlen (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol).

(2) Daw darpariaethau canlynol y Mesur i rym ar 1 Ionawr 2010—

(a) adran 2 (dyletswydd i weithredu gofynion cyffredinol);

(b) adran 3 (y cwricwlwm sylfaenol ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru);

(c) adran 4 (llunio cwricwla lleol ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) yn llawn;

(ch) adran 5 (cwricwla lleol: yr Iaith Gymraeg);

(d) adran 6 (awdurdodau â mwy nag un cwricwlwm lleol);

(dd) adran 7 (dewisiadau disgyblion o gyrsiau cwricwlwm lleol) yn llawn;

(e) adran 8 (hawlogaethau disgyblion o ran y cwricwlwm lleol);

(f) adran 9 (penderfyniad pennaeth ysgol ynghylch hawlogaeth) yn llawn;

(ff) adran 10 (cyflawni hawlogaethau'r cwricwlwm lleol);

(g) adran 11 (penderfyniad pennaeth ysgol i ddileu hawlogaeth) yn llawn.

(ng) adran 15 (pŵer i ddiwygio meysydd dysgu);

(h) adran 16 (cymhwyso darpariaethau cwricwlwm lleol i blant nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig);

(i) adran 17 (cymhwyso darpariaethau cwricwlwm lleol i blant sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion arbennig);

(j) adran 19 (pwerau i newid neu ddileu gofynion ar gyfer y pedwerydd cyfnod allweddol).

Darpariaeth drosiannol

3. Er bod adran 5 o'r Mesur yn dod i rym ar 1 Ionawr 2010 nid yw'r gofyniad ar awdurdod addysg lleol i ddarparu adroddiad o dan adran 116B o Ddeddf 2002 yn gymwys mewn perthynas â diwedd y flwyddyn academaidd 2009 i 2010.